# Paratoi a threfnu cyfryngu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwasanaethau cyfryngu. Mae wedi'i bwriadu ar gyfer pobl sy'n paratoi gwasanaethau cyfryngu ac yn eu trefnu ar gyfer eraill.

Mae'r safon yn edrych ar sut mae sicrhau priodoldeb y broses gyfryngu gyda chleientiaid, a sut mae cytuno ar amodau a ffiniau'r broses gyfryngu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. esbonio eich rôl yn y prosesau cyfryngu yn unol â gofynion sefydliadol
2. esbonio sut bydd agwedd ddiduedd yn cael ei chynnal wrth gyfryngu yn unol â gofynion sefydliadol
3. cynnal asesiadau risg ar gyfer cyfryngu sy'n diwallu anghenion cleientiaid a gofynion sefydliadol
4. gwirio bod lleoliadau ac amgylcheddau cyfryngu yn briodol ar gyfer anghenion cleientiaid ac asesiadau risg
5. esbonio diben ac egwyddorion prosesau cyfryngu ar gyflymdra a chan ddefnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer y cleientiaid
6. esbonio cyfyngiadau posibl cyfryngu yn unol ag anghenion cleientiaid
7. gwirio dealltwriaeth cleientiaid o'r broses gyfryngu, gan egluro'r wybodaeth yn ôl y galw, yn unol â gofynion sefydliadol
8. annog cleientiaid i ofyn cwestiynau i'w helpu i benderfynu ar briodoldeb cyfryngu ar gyfer eu sefyllfa
9. annog cleientiaid i fynegi eu pryderon ynghylch prosesau cyfryngu
10. sefydlu ymrwymiad cleientiaid i brosesau cyfryngu, yn unol â'u hanghenion
11. trin cleientiaid mewn ffyrdd sy'n hybu cydweithredu a defnydd cadarnhaol o gyfryngu, yn unol ag arfer da cydnabyddedig
12. esbonio opsiynau amgen mewn sefyllfaoedd lle mae cyfryngu neu ddefnyddio cyfryngwyr penodol yn amhriodol
13. cymhwyso egwyddorion cyfryngu mewn ffyrdd cyson ar hyd y broses
14. dyfeisio strategaethau perthnasol er mwyn dod â chleientiaid sy'n anghydweld i brosesau cyfryngu
15. sicrhau caniatâd cleientiaid ar gyfer modelau ac amodau cyfryngu arfaethedig
16. cytuno ar egwyddorion cyfranogiad cytbwys y ddau gleient yn unol â'u hanghenion
17. canfod natur a phriodoldeb materion ar gyfer cyfryngu, yn unol ag anghenion cleientiaid
18. cydymffurfio â'r holl ofynion a chanllawiau cyfreithiol, proffesiynol a sefydliadol wrth baratoi ar gyfer cyfryngu a'i drefnu
19. cofnodi gwybodaeth yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd cydymffurfio â gofynion a chanllawiau cyfreithiol, proffesiynol a sefydliadol perthnasol 2. deddfwriaeth, codau ymarfer, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol mewn perthynas â rôl y swydd/y gweithgareddau a gynhaliwyd 3. egwyddorion cyfryngu 4. sut mae gwirio dealltwriaeth cleientiaid a sut mae eu helpu i ddeall gwybodaeth a roddir iddynt 5. sut mae trin cleientiaid mewn ffyrdd sy'n hybu cydweithrediad a defnydd cadarnhaol o gyfryngu 6. arddulliau cyfathrebu a sut mae eu haddasu at anghenion cleientiaid 7. sut mae sicrhau ymrwymiad cleientiaid a beth mae hyn yn debygol o olygu, gan gynnwys; 7.1 annog penderfyniadau gwybodus gan bartïon 7.2 ymreolaeth ac adolygu opsiynau eraill 8. opsiynau amgen, gan gynnwys cyfeirio at asiantaethau neu gyfryngwyr eraill 9. modelau ac elfennau'r broses gyfryngu 10. yr amgylcheddau a allai fod yn fwyaf hwylus ar gyfer cyfathrebu effeithiol 11. sut mae cyfryngu'n ymwneud â'r sefyllfa gyfreithiol i gleientiaid 12. rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'r broses gyfryngu 13. gofynion cofnodi eich sefydliad, gan gynnwys sut mae storio gwybodaeth a gofnodwyd yn ddiogel

Paratoi a threfnu cyfryngu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Chwef 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau |
| **RCU gwreiddiol** | AG28 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Addysg a hyfforddiant, Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig eraill, Galwedigaethau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Gweithwyr Proffesiynol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Paratoi ar gyfer Gwaith, Gweithwyr canolfan alwadau/gyswllt, Ymgynghorwyr gyrfaoedd ac arbenigwyr ar gyfarwyddyd galwedigaethol, Gweithwyr proffesiynol ym maes lles, Ymgynghorwyr addysg ac arolygwyr ysgolion, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig a Galwedigaethau Technegol, Gweithwyr Proffesiynol ym maes Gwasanaeth Cyhoeddus |
| **Cyfres/Set** | Cyngor ac Arweiniad |
| **Geiriau Allweddol** | darpariaeth gyfryngu; cyngor; canllawiau; cyfryngu |